Oedfa Gyflwyno Brynhafod

Ar ddydd Sul, Hydref 20fed, cynhaliwyd Oedfa Gyflwyno yng ngofal y Gweinidog. Y rhai a gyflwynwyd oedd Carwyn a Megan, Trefor, Ilan Rhun, Bethan, a Leisa, oll yn aelodau ffyddlon yn yr Ysgol Sul

Roedd hi mor braf i gael cwmni'r teuluoedd ifanc sy'n ysbrydiaeth i ni at y dyfodol. Yn dilyn y gwasanaeth cafodd pawb gyfle i gymdeithasu dros ddiod a chacen ar y festri.

Cyfeillion o Aberduar yn oedfa dathlu deugain mlynedd er ordeinio'r Parchg Eirian Wyn Lewis, Bethel Mynachlog-ddu, 13 Hydref 2019

Deufis

Eglwysi Bedyddwyr Gogledd Teifi Rhagfyr 2019—Ionawr 2020

Trefn oedfaon y Sul

1 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	3.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

8 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Parchg Wynn Vittle
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Oedfa Nadolig y plant

15 Rhagfyr

Aberduar	10.00 y bore	Doniau'r eglwys
Brynhafod	1.30 y pnawn	Gweinidog– Cymun
Noddfa	5.00 y pnawn	Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul

22 Rhagfyr

Aberduar	10.30 y bore	Oedfa Nadolig yr ifainc
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog
Bethel	5.00 yr hwyr	Oedfa Nadolig

Dydd Mercher 25 Rhagfyr

Aberduar	9.00 y bore
Noddfa	10.00 y bore

29 Rhagfyr

Bethel	10.30 y bore	Gweinidog—Oedfa'r Cylch

drosodd/...

Trefn y Suliau (parhad)

5 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Gweinidog—Cymun
Caersalem	2.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Noddfa	5.00 yr hwyr	Oedfa garolau golau cannwyll

12 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Rhys Bebb Jones
Bethel	9.30 y bore	Gweinidog—Cymun
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog—Cymun
Brynhafod	3.00 y prynhawn	Gweinidog—Cymun

19 Ionawr

Noddfa	9.30 y bore	Parchg Eirian Wyn Lewis
Aberduar	11.00 y bore	Parchg Eirian Wyn Lewis
Brynhafod	1.30 y prynhawn	Oedfa rhai bach

26 Ionawr

Aberduar	10.00 y bore	Dwynwen Teifi
Bethel	10.15 y bore	Gweinidog
Seion	1.30 y prynhawn	Gweinidog

Cylch Darllen
10.30 yn Festri Noddfa, Dydd Mawrth cyntaf y mis

3 Rhagfyr—Epistol Iago 1:19-27, 2:1-13
(Te yng ngofal Janet)
14 Ionawr– Epistol Iago 2:14-26
(Te yng ngofal Hannelia)

Astudiaeth Feiblaidd y Cylch
7.15 yn y Gilfach, am yn ail Nos Iau

5 Rhagfyr—Actau 20:1-38, araith ymadawol Paul
9 Ionawr—Actau 21:1-36, y daith i Jerwsalem
23 Ionawr—Actau 21:37-40, 22:16, amddiffyniad Paul

Oedfa Ddiolchgarwch Noddfa

Daeth nifer dda o rieni, aelodau a ffrindiau'r achos ynghyd i Noddfa ar gyfer Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul. Mewn pennill a chân diolchwyd i Dduw am ei holl fendithion gan gofio hefyd am y miloedd sy'n dioddef. Braf oedd gweld y plant, y bobl ifanc a'r rhieni yn cymryd rhan trwy gyfrwng unawdau, gweddïau, darlleniadau o'r Beibl, sgyrsiau a grwpiau canu a phawb yn cyflawni eu gwaith yn raenus a deallus. Yn ôl yr arfer roedd y plant lleiaf yn codi gwên gyda'i brwdfrydedd heintus. I gloi, ymunodd y plant i ganu 'O mor dda yw ein Duw' a phawb wrth eu bodd yn chwarae o offerynnau taro amrywiol.

Talodd Alun deyrnged uchel i bawb am oedfa arbennig iawn oedd wedi rhoi pleser mawr i'r rhai oedd yn bresennol. Diolchodd hefyd i deuluoedd yr Ysgol Sul ac aelodau Noddfa am y cyfraniadau hael iawn tuag at y Banc Bwyd.

Cynhelir Oedfa Nadolig yr Ysgol Sul ar 15 Rhagfyr am 5 o'r gloch a'r parti yn dilyn.